



YR EGLWYS
YNG NGHYMRU



THE CHURCH
IN WALES

Adroddiad Gwella Yr Eglwys Yng Nghymru

**Ysgol Gynradd Pant Pastynog,
Prion. Dinbych.**

LL164SA

Awdurdod Lleol : Sir Ddinbych

Dyddiad Yr Arolwg : Mehefin 19ed a'r 20ed 2019

Dyddiad yr Arolwg Diwethaf: 2012

Rhif unigryw yr ysgol: 6633057

Prifathro : Mr Dafydd Rhys B.Sc.

Enw'r Arolygydd: Mr Gareth Williams M.Add



Cyd-destun yr Ysgol

Mae ysgol Pant Pastynog yn ysgol gymraeg a reolir gan yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r ysgol wedi ei lleoli mewn ardal wledig, ym mhentref Prion tua tair milltir o dref o Ddinbych. Mae'r ysgol yn un sydd yn darparu ar gyfer bechgyn a merched rhwng 3-11 oed. Mae nifer sylweddol 78% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf, gyda gweddill y plant yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg. Ar y gofrestr mae gan yr ysgol 78 o ddisgyblion sydd yn cynnwys 8 o blant meithrin rhan-amser. Mae 5.1% o blant gyda'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae 13% o'r disgyblion wedi eu nodi, fel rhai sydd â gŵn anghenion dysgu ychwanegol. Ar hyn o bryd nid oes plentyn wedi cael ei eithro o Addysg Grefyddol neu Addoli ar y Cyd.

Mae hynodrwydd ac effeithiolrwydd Pant Pastynog fel Ysgol Eglwys yng Nghymru yn ardderchog

Mae ysgol Pant Pastynog yn ymgorffori ei statws eglwysig yn naturiol i bob agwedd o fywyd yr ysgol, yn mwynhau cysylltiadau cryf gyda'r eglwys leol, y capeli a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu. Nodir ethos cryf o gariad a gofal o fewn yr ysgol. Mae'r plant yn gwerthfawrogi ac yn mwynhau eu aelodaeth o'r ysgol. Bydd Ficer Val yn yr ysgol bob hanner tymor i gynnal gwasanaethau ac yn rhoi cyngor ar faterion crefyddol. Bydd Ymwelydd yr Esgob a Ficer Val hefyd, yn aelod cefnogol o dîm yr ysgol. Mae'r disgyblion yn chwilfrydig wrth holi a myfyrio am y byd y maent yn byw ynddo, materion ysbrydol a heriau moesol. Cânt lawer o gyfleoedd i gyfrannu at eu hamgylchedd dysgu a'r byd ehangach. Gwneir hyn i gyd trwy fyfyrion a gwerthfawrogi y byd mae Duw wedi greu.

Cryfderon

- Amgylchedd Cristionogol gofalgarn, cefnogol a heriol, a ffocus clir ar werthoedd Cristionogol ar draws yr ysgol
- Datblygiad ardderchog moesol y plant.
- Ymddygiad, ac agwedd ardderchog y plant..
- Mae plant Pant Pastynog yn cael eu cefnogi gan holl staff yr ysgol i gyflawni eu llawn potensial
- Y defnydd da sy'n cael ei wneud o Dechnoleg Gwybodaeth i gyflwyno gwersi Addysg Grefyddol ac i gefnogi Addoli ar y Cyd.

Ffocws datblygu

- I annog y plant i gynllunio, ac arwain Addoli ar Y Cyd yn fwy rheolaidd.
- Gwneud fwy o ddefnydd o gyfarchion anglicanaidd ar ddechrau y gwasanaethau
- Datblygu ymhellach gwaith rhifedd o fewn Addysg Grefyddol
- Datblygu cydweithio gyda ysgolion eglwysig eraill ac ymwelwyr cristionogol
- Dal ati i gynnal y safonau uchel mae'r ysgol wedi gyflawni

Mae y rhagolygon am welliant yn y dyfodol yn dda

Mae'r ysgol , trwy ei chymeriad Cristnogol nodedig yn ardderchog at fodloni anghenion pob dysgwr

Mae cyfraniad Addysg Grefyddol at gymeriad Cristnogol yr ysgol yn ardderchog

Mae ethos gofalgwr Cristnogol go iawn yn treiddio drwy'r ysgol, sydd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles y staff a'r disgyblion, gan roi sylfaen dda iawn er mwyn galluogi addysgu a dysgu i ddigwydd. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cyflawni'n dda yn ôl eu hoedran a'u gallu, gan gynnwys disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, disgyblion mwy galluog a thalentog. Gwelir dystiolaeth mewn arsylwadau gwarsi mewnol, wrth arfarnu llyfrau gwaith disgyblion, trafodaethau gyda disgyblion ac ymgynghorwyr allanol.

Mae gwerthoedd unigryw Cristnogol yn cael eu gwneud yn amlwg ac yn rhan annatod o fywyd dyddiol yr ysgol. Gwelir gwerthoedd ac arteffactau Cristnogol yn cael eu harddangos yn amlwg ar draws yr ysgol. Mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn mynegi nodweddion unigryw Cristnogol o werthoedd yr ysgol, a'r effaith sylweddol y maent yn eu cael ar fywydau dyddiol a chyflawniad dysgwyr. Pan oedd y plant yn cael ei holi am newid unrhyw beth yn yr ysgol, nid oedd un disgybl eisiau newid dim byd.

Mae dehongliad hynod ddatblygedig o ysbrydolrwydd, yn cael ei rannu ar draws yr ysgol. Mae dysgwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd i gymeryd rhan mewn profiadau o ansawdd uchel sy'n datblygu ysbrydolrwydd personol. Mae y plant yn angerddol ac yn hyderus i fynegi eu meddyliau a'u barn yn fanwl trwy amrywiaeth gyfoethog o arddulliau a chyfryngau.

Yn ystod Addoli ar y Cyd mae'r disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o weddiâu, caneuon a chadarnhadau o oedran cynnar. Mae Ficer Val a cynrychiolwyr y capeli lleol yn arwain addoliad yn rheolaidd. Caiff y disgyblion amser i fyfyrion yn ystod Addoli ar y Cyd a yn cael eu gwahodd i ymuno mewn gweddi.

Mae'r ysgol wedi gweithio'n galed i sicrhau bod Addysg Grefyddol yn cael ei le priodol yn y cwricwlwm. Mae strategaethau cynllunio da yn gwneud y gorau o'r cysylltiadau trawsgwricwlaidd ac yn annog disgyblion i ddatblygu eu sgiliau. Mae Technoleg Gwybodaeth yn cael ei defnyddio'n dda ac ac mae ansawdd y gwarsi yn dda, a thrwy hynny yn galluogi disgyblion i gael ystod da o wybodaeth a dealltwriaeth.

Drwy gynllunio gyda'i gilydd mewn cyfnodau allweddol ar y cyd, mae'r staff â'r cydlynnydd pwnc yn sicrhau bod parhad a dilyniant ar draws yr ysgol. Y mae Addysg Grefyddol wedi cael ei ddiweddarau yn ddiweddar gan y cydlynnydd pwnc, y pennaetha'r staff. Trwy arsylwi gwarsi gwelir engreiffiau ardderchog o wersi Addysg Grefyddol. Fel y wers yn y Cyfnod Sylfaen am y tai wedi adeiladu ar y graig a'r tywod. Mae asesu, cofnodi a chyflwyno adroddiadau elfennol o fewn Addysg Grefyddol yn eu lle, ac yn gweithio'n effeithiol.

Yn ystod gwarsi Addysg Grefyddol bydd y disgyblion yn cael eu hannog i ofyn cwestiynau priodol i'w oedran / gallu, gan adlewyrchu ar yr ystyr a negeseuon, ac yna ystyried sut mae'r rhain yn cael effaith ar eu bywydau eu hunain. Mae disgyblion, staff, rhieni a'r gymuned ehangach yn rhannu perthynas dda iawn. Bydd hyn yn galluogi'r plant i deimlo'n ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion, sydd yn sicrhau eu bod yn y sefyllfa orau i fanteisio ar y cwricwlwm a chyflawni eu potensial. Trwy ddysgu am ddiwylliannau a crefyddau eraill mae'r disgyblion yn cael cyfleuodd i ddatblygu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd eang. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i gefnogi rhif eang o elusennau yn rheolaidd yn y wlad yma ac mewn gwledydd dramor.

Gan ddefnyddio amrywiaeth o arddulliau addysgu a dysgu, mae'r staff yn sicrhau bod pob disgybl yn cael ei gynnwys ac yn cael cyfleoedd i fyfyrion yn ysbrydol. Mae gwarsi Addysg Grefyddol yn cael eu darparu fel rhan o'r amserlen wythnosol rheolaidd. Bydd darpariaeth y cwricwlwm yn cael ei fonitro gan y pennaeth, yr arweinydd pwnc a'r llywodraethwr sydd â chyfrifoldeb am Addysg Grefyddol. Nodir elfen eglwysig gref o fewn Addysg Grefyddol sy'n sail i fywyd ysbrydol yr ysgol ac mae'n dda gweld yr Ysbryd Glân yn cael lle yn y cwricwlwm. Mae mewnbyn o'r eglwys a'r capeli lleol a'r Ymwelydd Esgob yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan bawb yn gymuned yr ysgol.

Mae effaith Addoli ar y Cyd ar y gymuned ysgol yn ardderchog

Mae addoli yn brofiad cadarnhaol i'r disgyblion ac yn rhan hanfodol o fywyd yr ysgol. Mae staff yn mynychu addoliad yn rheolaidd ac yn cymeryd rhan gyda'r disgyblion. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i gymeryd rhan ac arwain addoliad ar achlysuron arbennig, mewn sawl ffordd wahanol. Gwna'r ysgol ddefnydd ardderchog o ddiwylliant crefyddol Cymraeg yn ystod Addoli ar y Cyd, trwy storïau, gweddïau, emynau a chyfarwyddiadau. Bydd amser hefyd yn cael ei neilltuo o fewn Addoli ar y Cyd i rannu a dathlu talent a chyflawniad unigol.

Mae Addoli ar y Cyd yn ysgol Pant Pastynog yn cael ei ddarparu ar sail dyddiol. Mae disgyblion yn arwain gwasanaethau ar adegau allweddol trwy gydol y calendr Cristnogol. Bydd rhieni hefyd yn cael eu gwahodd i fynychu y digwyddiadau hyn. Mae ethos Cristnogol yr ysgol yn cael ei adlewyrchu drwy ddarparu pwyntiau ffocws gyda symbolau Cristnogol a cherddoriaeth briodol, ymatebion priodol, gweddïau, ac amser i fyfrio.

Mae gwerthoedd Cristnogol wrth galon yr ysgol a'i gweithgareddau amrywiol. Engraifft dda o'r gwerthoedd ar waith yw y plant hynaf yn gofalu ar ol y plant ifanc ar yr iard. Mae cannyll yn cael ei chynnu i ddynodi dechrau a diwedd yr addoli. Wrth ddiffodd y fflam mae'r ysbryd yn cael eu ddanfon at llawer o wahanol achosion. Mae'r ysgol yn cynnwys y flwyddyn eglwysig yn ei chynlluniau hir dymor.

Bydd y Ficer Val yn arwain Addoli ar y Cyd bob hanner tymor yn yr ysgol. Hefyd mae ymweliad y tim "Agor Y Llyfyr" yn cael eu gwerthfawrogi gan holl aelodau'r ysgol. Mae'r plant yn cael eu hannog i fodelu eu hymddygiad ar y gwerthoedd a dysgeidiaeth Cristnogol, trwy storïau Beiblaidd, ac yn cael eu hannog i fyw rhain allan yn eu bywydau dyddiol. Efallai mae y cam nesaf yw i'r plant i gyd yn eu tro gael cyfleuon i gynllunio, trefnu, cyflwyno a gwerthuso Addoli ar y Cyd.

Mae'r ysgol yn anelu at sicrhau fod gweithredoedd Addoli ar y Cyd yn rhyngweithiol, fel y bo'n briodol. Gofynnir cwestiynau a mae'r disgyblion yn cael eu hannog i gymeryd rhan, drwy gyfraniadau llafar, darllen gweddïau a storïau, ac yn cymeryd amser i fyfrio ar y thema gyfredol.

Mae Addoli ar y Cyd yn cynnwys dathliadau o ddiwylliannau a chrefyddau eraill a maent yn cael eu seilio ar werthoedd yr ysgol. Mae gwasanaethau yn adlewyrchu gwerthoedd Cristnogol. Bydd Addoli ar y Cyd a'r sesiwn adlewyrchol, yn rhoi cyfleoedd i'r plant fyfrio fel rhan o'u datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Bydd addoli yn darparu cyfleoedd penodol i ddisgyblion a staff i addoli Duw a defnyddio'r Beibl. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i Addoli ar y Cyd ac maent yn gwrando ac yn ymateb yn dda. Mae canllawiau clir ar ymddygiad derbyniol ac annerbyniol. Bydd canlyniadau ymddygiad yn cael eu trafod a'u dysgeidiaeth Cristnogol, er enghraifft, maddeuant, yn cael ei ddefnyddio lle bo hynny'n briodol. Mae ethos cryf o gariad a gofal o fewn yr ysgol.

Mae Addysg Bersonol a Chymdeithasol, materion byd-eang, yn ogystal âg ymwelwyr cyson i'r ysgol, i gyd yn helpu i lunio datblygiad ysbrydol a moesol y plant. Mae'r ysgol yn cymeryd gofal i ymdrin yn briodol â materion sensitif a chyfrinachol. Mae staff yn trin disgyblion fel unigolion, yn dathlu amrywiaeth a llwyddiant yn briodol, ac yn ymwybodol o anawsterau pobl.

Mae'n amlwg fod y plant yn mwynhau gwrando, a cymeryd rhan mewn Addoli ar y Cyd. Maent yn gallu ail adrodd llawer o'u hoff storïau o'r Beibl gan werthfawrogi'r negeseuon moesol. Mewn trafodaeth gyda'r plant mynegwyd eu gwerthfawrogiad o'r cyfleoedd a gynigir iddynt yn ystod addoli i ddatblygu eu dealltwriaeth o Dduw a gwerthfawrogi gweddio.

Mae effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol, fel ysgol eglwys yn ardderchog

Mae y pennaeth sydd wedi bod yn ei swydd ers 2013, yn sicrhau bod gweledigaeth o ethos Cristnogol yr ysgol yn cael ei gyfleu a'i fodelu drwy gydol y dydd i ddisgyblion, rhieni ac ymwelwyr. Mae'r pennaeth, y Corff Llywodraethol a'r holl staff yn gweithio fel tîm i hyrwyddo ethos a gweledigaeth yr ysgol. Mae'r Corff Llywodraethol, gan gynnwys Llywodraethwyr Sylfaen, yn cefnogi cymeriad Cristnogol yr ysgol ac yn cymeryd rhan yn y broses o gynllunio strategol, a thrwy hynny, sicrhau fod yr ysgol yn darparu'r addysg orau i'w disgyblion.

Bydd yr arweinydd pwnc Addysg Grefyddol yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r, pennaeth a Llywodraethwyr i arfarnu'r maes trwy trafodaethau gyda'r staff, craffu ar lyfrau a chynlluniau. Mae cyflenwad da o adnoddau Addysg Grefyddol a Beiblau ar gael yn yr ysgol.

Yn ystod adegau arbennig o'r flwyddyn Gristnogol, mae y disgyblion yn cymeryd rhan arweiniol yng ngwasanaethau yn yr eglwys ar capeli. Denghys hyn bwysigrwydd y calendr Cristnogol i'r disgyblion ac hefyd eu bod yn cael eu cynnwys yn nheulu yr eglwys.

Mae polisi Addoli ar y Cyd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar gan y staff a'r Llywodraethwyr. Mae Ymwelydd yr Esgob a Ficer Val yn ymweld bob hanner tymor i gynnig arweiniad, cymorth a chynngor, ac i fonitro gwaith a gweithgareddau cysylltiedig i Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd.

Mae'r ysgol yn ymdrechu'n galed i gadw rhieni yn ymwybodol o gynnydd eu plant. Maent yn cael eu gwahodd i noson agored ym mis Medi, ac yna yn rheolaidd ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn. Bydd adroddiad llawn yn cael ei roi ym mis Gorffennaf. Mae cyfleoedd da i rieni gyfarfod âg athrawon a chyfathrebu gyda'r ysgol yn effeithiol trwy lythyr, e-bost a thestun. Mae polisi drws agored yn ei le ar gyfer rhieni.

Mae gan y staff weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae y corff Llywodraethol yn gweithredu fel cyfeillion beirniadol i'r pennaeth ac yn fwy i herio'r pennaeth erbyn hyn. Byddant yn derbyn adroddiadau ar ddatblygiadau'r ysgol a data perfformiad ym mhob cyfarfod llywodraethwr drwy Adroddiad y pennaeth. Bydd hyn yn sicrhau atebolrwydd y llywodraethwyr am safonau dysgu ac addysgu a safonau cyflawni y dysgwyr. Mae'r llywodraethwyr yn frwdfrydig ac yn cefnogi'r ysgol yn dda. Mae ei sgiliau fel Llywodraethwyr yn cael eu datblygu yn eu rol o ddarparu cymorth a her.

Mae Pant Pastynog gweithio'n agos gyda nifer o elusennau ac asiantaethau lleol er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth, empathi a chydabyddiaeth o'r hyn sydd yn digwydd yn y gymuned leol. Hefyd mae yna gysylltiadau agos gyda asiantaethau allanol e.e. PC Llinos, Nyrs Ysgol, Swyddog Cyswllt Teulu, Swyddogion GwE, yr Awdurdod Addysg Lleol a Gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Dywedir fod y cyd-weithio hyn yn dysgu'r plant am fywyd pobol sydd yn llai ffodus a sut i fod yn Gristion da drwy helpu eraill a'n hunain drwy ba bynnag ffyrdd sy'n bosib. Dengys hyn iddynt sut i fod yn ddinasyddion cyflawn sydd yn parchu pawb a phopeth o'u cwmpas. Mae cysylltiadau cadarn gan yr ysgol gyda'r eglwys, capeli ar gymuned ehangach sydd yn gefnogol iawn o'r ysgol a'i holl weithgareddau yn yr eglw ac yn cydweithio gyda'r disgyblion a rhieni ar achlysuron arbennig

Gwelir fod datblygiad proffesiynol y pennaeth a'r holl staff yn flaenoriaeth. Cânt eu hannog bob amser i gymeryd rhan mewn cyrsiau sy'n gysylltiedig âg ethos a datblygiad ysgol eglwys.

Yn ysgol Pant Pastynog mae ethos yn bodoli lle mae disgyblion a staff yn teimlo'n ddiogel ac yn derbyn gofal. Mae'r holl staff yn anelu at roi'r addysg orau y gallant i'r disgyblion, yn ysbrydol ac yn academaidd. Mae'r llywodraethwyr yn gwbl ymrwymedig i werthoedd Cristnogol yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cyflawni'r gofynion statudol ar gyfer Addoli ar y Cyd

***Dylid ystyried cynnwys yr adroddiad hwn wrth ochr Adroddiad Adran 28 Tîm Arolygu Estyn. Dymunaf ddiolch i Dîm Arolygu Estyn am eu cydweithrediad. Dymunaf ddiolch i bennaeth, Staff, Llywodraethwyr a disgyblion Ysgol Pant Pastynog am eu croeso a'u cydweithrediad
Mr Gareth Williams M.Add.***

Report under Section 50 of the Education Act 2005 Arolwg o dan Adran 50 o Ddeddf Addysg 2005

Holiadur Rhieni - Parents' Questionnaire

Yr oedd 35 ymateb - There were 35 responses

| | YDWYF | NAC YDWYF | |
|---|-------|-----------|---|
| A ydych chi'n ymwybodol mai Ysgol Eglwys yw hon? | 35 | | <i>Are you aware that this is a Church school?</i> |
| A ydych o'r farn fod yr ysgol yn sefydliad sydd wedi ei adeiladu ar sylfaen Gristnogol glir? | 35 | | <i>Do you believe that the school is a place which is built upon clear Christian values?</i> |
| Ysgol Eglwys, sef ysgol gyda chymeriad Cristnogol, yw hon. A oedd y ffaith yma yn bwysig wrth i chi dewis ysgol i'ch plentyn / plant? | 28 | 7 | <i>This is a Church School, that is a school with a Christian character. Was this fact important when you were choosing a school for your child / children?</i> |

| | Cytuno'n llwyr | Cytuno | Y naill na'r llall | Anghytuno | Anghytuno'n llwyr | |
|---|-----------------------|--------------|--------------------|-----------------|--------------------------|--|
| Mae cymeriad Cristnogol nodedig yn perthyn i'r ysgol | 27 | 4 | 3 | 1 | | <i>The school has a distinctive Christian character</i> |
| Mae cymeriad Cristnogol nodedig yn gwneud cyfraniad awyddocaol i addysg y disgyblion. | 23 | 7 | 4 | 1 | | <i>The school's distinctive Christian character makes a significant contribution to pupils' education.</i> |
| Ym marn y disgyblion, mae'r addoli ar y cyd yn brofiad gwerthfawr | 21 | 10 | 3 | 1 | | <i>Pupils find collective worship a valuable experience</i> |
| Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol â'r eglwys leol a chymunedau ffydd eraill. | 30 | 2 | 3 | | | <i>The school has effective links with the local church and other faith communities.</i> |
| Mae'r ysgol yn hysbysu'r rhieni yn dda am y gwaith a wna'r disgyblion 7 Addysg Grefyddol | 28 | 3 | 2 | | 2 | <i>The school keeps parents well informed about the work pupils do in Religious Education</i> |
| Mae'r ysgol yn hybu'r disgyblion i ofalu am Greadigaeth Duw (yr amgylchfed), yn ogystal â'n nhw eu hunain. | 32 | 1 | 1 | 1 | | <i>The school encourages pupils to care for God's Creation (the environment), as well as for themselves.</i> |
| Mae'r ysgol yn hybu'r disgyblion i ystyried pobl mewn gwledydd eraill, a sut fedran nhw eu cynorthwyo pan bo angen. | 30 | 3 | 2 | | | <i>The school encourages pupils to consider people in other countries, and how they can help assist them, when help is required.</i> |
| Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol â'r gymuned leol. | 32 | 2 | 1 | | | <i>The school ensures links are made with the local community.</i> |
| | <i>Strongly Agree</i> | <i>Agree</i> | <i>Neither</i> | <i>Disagree</i> | <i>Strongly Disagree</i> | |

